WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Ms. Alison Ward
Prif Weithredwr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Swyddfeydd y Cyngor
Y Ganolfan Ddinesig
Pont-y-pŵl
NP4 6YB

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | 15 Hydref 2013 |
| **Ein cyfeirnod** | 487A2013 |
| **Rhif ffôn** | 02920 320500 |
| **E-bost** | Non.Jenkins@wao.gov.uk |
| **Tudalen** |  |

Annwyl Alison

# Asesiad Gwella

Mae gofyn i mi, o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), adrodd ar fy ngwaith archwilio ac asesu i bennu a gyflawnodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen (y Cyngor) ei ddyletswyddau a bodloni gofynion y Mesur.

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi:

- fy sylwadau ar i ba raddau mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol o ran cynllunio ar gyfer gwella;
- fy sylwadau ar gydymffurfiaeth y Cyngor â gofynion i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus, yn seiliedig ar waith a gyflawnwyd hyd yn hyn gan Swyddfa Archwilio Cymru a'r rheoleiddwyr perthnasol, gan gynnwys:
  - cynnydd y Cyngor o safbwynt meysydd i'w gwella ac argymhellion a nodwyd yn fy asesiadau blaenorol;
  - unrhyw faterion perthnasol sydd wedi codi o bosibl ers fy adroddiad diwethaf, gan gynnwys sylwadau ar sut mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â heriau ariannol; a
  - chrynodeb o unrhyw adroddiadau gan reoleiddwyr perthnasol a gyhoeddwyd ers fy adroddiad diwethaf;
- fy nghynigion a/neu argymhellion eraill ar gyfer gwella; a
- diweddariadau i gynllun gwaith ac amserlen Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer cyflawni fy ngwaith ar yr Asesiad Gwella.

Byddaf yn diweddaru fy safbwyntiau yn ystod y flwyddyn ac yn anfon llythyr arall erbyn diwedd Tachwedd 2013.

## Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio ar gyfer gwella o dan y Mesur. Fodd bynnag, dylai sicrhau ei fod yn cydymffurfio mwy â chanllawiau Llywodraeth Cymru

Deuthum i'r casgliad hwn oherwydd bod fy ngwaith archwilio ac asesu wedi canfod bod Amcanion Gwella Blynyddol y Cyngor a'i gynllun gwella blynyddol, sef *Ein Cynllun Gwella Tua'r Dyfodol ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2013-14: Cyflawni Cynllun Corfforaethol 2*, (y Cynllun), yn bodloni gofynion y Mesur. Mae gofyn i'r Cyngor gyhoeddi ei Gynllun cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol berthnasol. Cyhoeddodd y Cyngor ei Gynllun ar 27 Mehefin 2013.

Mae'r Cyngor wedi pennu sail resymegol glir ar gyfer dewis ei amcanion gwella ar sail ei berfformiad presennol, ei Gynllun Corfforaethol 2 (2011-16), safbwyntiau rhanddeiliaid a phartneriaid, a phroses ymgynghori â dinasyddion a gwblhawyd ym mis Tachwedd 2012. Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi fersiwn Cymraeg o'r Cynllun, ac mae rhifyn mis Awst 2013 o gylchlythyr *Torfaen Talks* y Cyngor yn cynnwys crynodeb Cymraeg a Saesneg ohono. Mae modd lawrlwytho'r Cynllun o'r wefan neu gael copi caled ohono, ac mae'r Cyngor wedi defnyddio cyfryngau cymdeithasu fel Facebook a Twitter i'w hyrwyddo.

Ym mis Mehefin 2011, aeth y Cyngor ati i bennu 25 amcan gwella sy'n diffinio sut mae'n bwriadu cyflawni saith blaenoriaeth Cynllun Corfforaethol 2. O ystyried yr her ariannol gynyddol sy'n wynebu pob corff cyhoeddus yng Nghymru, mae'r Cyngor wedi rhoi blaenoriaeth i gyflawni ei amcanion gwella. Ar ôl gofyn i ddinasyddion sut y dylai flaenoriaethu'r amcanion gwella ym mis Tachwedd 2011, dewisodd y Cyngor 10 amcan i'w cyflawni yn ystod 2012-13. Mae'r amcanion sy'n cael blaenoriaeth yn ymwneud ag ysgolion, gofal cymdeithasol a gwastraff.

Cynhaliodd y Cyngor ymgynghoriad arall â dinasyddion ym mis Tachwedd 2012 er mwyn helpu i flaenoriaethu ei amcanion gwella ar gyfer 2013-14. Cyflwynwyd y canlyniadau i bwyllgorau craffu'r Cyngor er mwyn eu hadolygu. O ganlyniad, mae'r Cyngor yn parhau i flaenoriaethu'r 10 amcan gwella o 2012-13, ac wedi ychwanegu pum amcan gwella arall, gan roi cyfanswm o 15 amcan gwella i'w cyflawni yn ystod 2013-14.

Er i'r Cyngor ymrwymo yn 2011 i sicrhau gwelliant yn erbyn pob un o'i 25 amcan erbyn 2016, mae disgwyliad y Cyngor y bydd yn gallu cyflawni 15 amcan yn 2013-14 yn uchelgeisiol ar adeg pan fo adnoddau ariannol ac adnoddau eraill o dan bwysau cynyddol. Bydd angen rheoli'r uchelgais hon yn ofalus yn ystod 2013-14 a'r blynyddoedd sy'n dilyn fel rhan o adolygiad sylfaenol pedair blynedd y Cyngor o'i adnoddau. Oherwydd yr hinsawdd ariannol cynyddol anodd sy'n wynebu'r Cyngor, a llywodraeth leol yn gyffredinol, bydd cyflawni pob un o'r 25 amcan gwella erbyn 2016 yn anodd iawn.

Mae arddull a fformat cyffredinol y Cynllun yn debyg iawn i'r hyn a gafwyd y flwyddyn flaenorol. Ar gyfer pob amcan gwella, mae'r Cyngor yn nodi beth y mae'n bwriadu ei wneud yn ystod oes Cynllun Corfforaethol 2 er mwyn cyflawni'r amcan. Mae mesurau'r

Cynllun yn cynnwys targedau perfformiad ar gyfer 2013-14 yn ogystal â gwybodaeth am berfformiad yn erbyn y mesurau hyn ar gyfer y tair blynedd flaenorol.

Fodd bynnag, nid yw rhai o ddatganiadau canlyniadau wedi'u mesur eto, sy'n ei gwneud yn anodd gwybod sut y bydd y mesurau yn helpu i ddangos bod yr amcan wedi'i gyflawni'n llwyddiannus a beth yw'r diffiniad o 'amcan wedi'i gyflawni'. Er enghraifft, nid oes tystiolaeth gyson ar gael eto ar gyfer y cysylltiad rhwng yr Amcanion Gwella a'r mesurau llwyddiant, y data sylfaenol a'r targedau ar gyfer gwella cysylltiedig. Nid yw rhai mesurau wedi'u disgrifio'n glir ac mae'n anodd gwybod a yw alldro perfformiad uwch neu is yn well neu'n waeth.

Bellach mae yna fesur o lwyddiant i gyd-fynd â phob gweithgaredd sydd wedi'i restru o dan amcan gwella yng nghynllun 2013-14. O ganlyniad, mae mesurau newydd wedi'u cyflwyno ar gyfer rhai amcanion gwella yn 2012-13. Mewn rhai achosion, nid yw'n glir pam y mae'r mesurau ychwanegol hyn wedi'u dewis neu sut y byddant yn dangos cynnydd tuag at gyflawni'r amcan gwella. Er enghraifft, o dan yr amcan gwella, 'Gweithio mewn ffyrdd gwahanol i leihau ein costau', mae mesur newydd wedi'i ychwanegu, sef 'Dymchwel Neuadd y Sir'. Mae'r gwaith hwn yn agos iawn at gael ei gwblhau, ac nid yw'n glir pam y mae wedi'i nodi fel mesur newydd eleni. Yn ogystal, mae mesurau newydd ar 'ganran cerbydau'r Cyngor a ddefnyddir' a 'gweithredu polisi cludiant ysgolion newydd ar hawliau' wedi eu hychwanegu o dan yr amcan hwn. Fodd bynnag, nid yw'n glir a yw'r Cyngor yn ceisio lleihau ei fflyd gyfan, cynyddu'r defnydd o'i fflyd bresennol neu leihau'r defnydd er mwyn lleihau costau rhedeg.

Mae'r Cynllun yn cynnwys gwybodaeth gyffredinol am yr adnoddau refeniw a chyfalaf sydd ar gael i helpu i gyflawni amcanion gwella'r Cyngor dros gyfnod Cynllun Corfforaethol 2. Mae yna gyfle ychwanegol i gryfhau'r cysylltiadau yn y Cynllun rhwng y mesurau a bennwyd a'r adnoddau ariannol sydd ar gael. Byddai'r cysylltiadau cryfach hyn yn helpu dinasyddion i ddeall bod y targedau ar gyfer gwella yn y Cynllun, neu'r posibilrwydd y bydd perfformiad yn gostwng o gymharu â lefelau'r flwyddyn flaenorol, yn deillio o benderfyniad bwriadol i gynyddu neu leihau adnoddau yn y meysydd hyn.

Mae'r broses o gyflawni Amcanion Gwella yn seiliedig ar Gynlluniau Gwella Gwasanaeth sy'n darparu gwybodaeth am gamau gweithredu, mesurau llwyddiant ac amserlenni i gyflawni'r Amcanion unigol. Adeg ein hadolygiad yn wythnos olaf Gorffennaf 2013, gwelwyd mai dim ond chwech o'r wyth Cynllun Gwella Gwasanaeth a gyhoeddwyd ar wefan y Cyngor a oedd wedi'u diweddaru ar gyfer 2013-14, ac roedd dau ohonynt yn cyfeirio at flwyddyn ariannol 2012-13. Fodd bynnag, roedd Cynlluniau Gwella Gwasanaeth 2013-14 a oedd ar gael yn dangos cysylltiadau da rhwng yr Amcanion Gwella unigol a chamau gweithredu wedi'u cynllunio i helpu i'w cyflawni.

Roedd Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011(y Ddeddf) yn pennu gofynion penodol ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae tebygrwydd sylweddol rhwng y gofyniad i lunio Amcanion Cydraddoldeb a'r elfen 'Degwch' y mae'n rhaid i awdurdodau ei hystyried wrth bennu amcanion gwella o dan y

Mesur. Mae *Ein Cynllun Gwella Tua'r Dyfodol ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2013-14: Cyflawni Cynllun Corfforaethol 2* y Cyngor yn cynnwys rhywfaint o wybodaeth am waith y Cyngor o ran ei asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb, yn enwedig mewn perthynas â phennu cyllidebau, ac 'Addewid Cydraddoldeb' y Cyngor, sy'n egluro sut mae'r Cyngor yn blaenoriaethu gwasanaethau ar gyfer pobl (ar sail nodweddion gwarchodedig) sydd fwyaf agored i niwed yn sgil anfantais ac anghydraddoldeb. Credaf fod y Cyngor wedi bodloni gofynion y Ddeddf wrth bennu ei Amcanion Gwella.

## Yn seiliedig ar, ac yn gyfyngedig i, waith a gyflawnwyd hyd yn hyn gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, nid oes sicrwydd a yw'r Cyngor yn debygol o gydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol

Rwyf wedi dod i'r casgliad hwn oherwydd:

**Mae gan y Cyngor systemau corfforaethol da i gydgysylltu ac adrodd ar ganfyddiadau a chanlyniadau'r gwaith, ond mae cynnydd o ran mynd i'r afael â chynigion unigol ar gyfer gwella wedi bod yn gymysg.**

Yn gyffredinol, mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd cymysg yn erbyn ein cynigion ar gyfer gwella. Er enghraifft, mae'r Cyngor wedi cryfhau ei drefniadau cynllunio a rheoli ariannol i sicrhau eu bod yn cyd-fynd yn well â chynllunio gwasanaethau a chyflawni blaenoriaethau corfforaethol. Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi ymateb i ganfyddiadau ein hadolygiad o'r datganiad llywodraethu blynyddol drwy sefydlu Grŵp Swyddogion Llywodraethu Corfforaethol i adolygu a chryfhau ei drefniadau llywodraethu corfforaethol a llywio datblygiad ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer eleni. Fodd bynnag, bu'r cynnydd yn arafach mewn nifer o feysydd eraill, gan gynnwys datblygu mesurau canlyniadau mwy cadarn; pennu safonau gwasanaethu ledled meysydd gwasanaeth allweddol a datblygu fframwaith i helpu'r Cyngor i gydweithio ag eraill. Mae rhagor o fanylion am ein hasesiad o gynnydd y Cyngor wrth fynd i'r afael â chynigion ar gyfer gwella wedi'u cynnwys yn Atodiad 1 y llythyr hwn.

Mae gan y Cyngor systemau priodol i adrodd ar ganfyddiadau ein gwaith a rheoli'r meysydd sydd i'w gwella a'r argymhellion sy'n deillio o'r gwaith hwn. Fodd bynnag, mae angen i aelodau sicrhau eu bod yn herio'r cynnydd a wnaed yn y cyswllt hwn a'r hunanwerthusiad o'r cynnydd a wnaed wrth wella trefniadau'r Cyngor. Defnyddir Cynllun Gweithredu Sengl y Cyngor, sy'n dwyn ynghyd ganfyddiadau ein gwaith asesu gwelliannau, i gydgysylltu sut mae gwasanaethau yn mynd i'r afael â chynigion ar gyfer gwella, ac mae'n cael ei fonitro gan Bwyllgor Archwilio'r Cyngor. Mae'r Cabinet a'r Pwyllgor Archwilio wedi derbyn fy Llythyrau Gwella ac Adroddiadau Gwella Blynyddol. Mae hyn yn galluogi'r Aelodau i asesu perfformiad y Cyngor ac ystyried barn annibynnol ynglŷn â sut mae'r Cyngor yn mynd ati i wella gwasanaethau ar gyfer ei ddinasyddion. Ychwanegwyd adran newydd at y Cynllun Gweithredu Sengl ym mis Gorffennaf 2013 a

oedd yn cynnwys prif negeseuon adolygiad dilynol Estyn o wasanaethau addysg. Mae'r adran newydd hon hefyd yn disgrifio'r trefniadau sydd ar waith i fonitro cynnydd y Cyngor wrth fynd i'r afael â'r Cynllun Gweithredu Ôl-Arolygiad drwy Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Dysgu. Mae modd datblygu'r Cynllun Gweithredu Sengl ymhellach er mwyn cynnwys yn llawn yr argymhellion sy'n deillio o waith Estyn ac AGGCC er mwyn galluogi'r Cyngor i herio a dangos y cynnydd a wnaed wrth fynd i'r afael â chanfyddiadau rheoleiddwyr ac arolygiaethau eraill mewn ffordd fwy tryloyw.

Byddwn yn parhau i fonitro a chrynhoi cynnydd y Cyngor mewn perthynas â chamau gweithredu sy'n parhau mewn adroddiadau yn y dyfodol. Mae rhagor o wybodaeth am ein canfyddiadau mewn rhai o'r meysydd hyn yn cael ei darparu ar wahân mewn diweddariadau interim i'r Cyngor, lle bo hynny'n briodol.

**Mae trefniadau corfforaethol ar gyfer cydgysylltu perfformiad a chyflwyno adroddiadau arno yn cael eu cryfhau, ond nid yw rhai systemau ar gyfer rheoli perfformiad a sicrhau ansawdd data mewn gwasanaethau yn gadarn**

Mae angen i bob cyngor gael gwybodaeth dda a'i defnyddio'n dda er mwyn iddo ddarparu gwasanaethau da a'u gwella. Mae'r Cyngor wedi sefydlu systemau corfforaethol drwy ddefnyddio Ffynnon[1] er mwyn adrodd ar ei berfformiad, ac rydym wedi archwilio'r systemau hyn yn ddiweddar i asesu pa mor effeithiol a dibynadwy yw'r trefniadau. Mae'r mesurau a ddewiswyd gennym i'w harchwilio yn cynnwys Dangosyddion Strategol Cenedlaethol, Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus, Setiau Data Gwella Gwasanaethau a mesurau lleol a ddatblygwyd gan y Cyngor. Mae'r holl fesurau a archwiliwyd yn fesurau a ddefnyddir gan y Cyngor i farnu pa mor dda y mae'n cyflawni ei amcanion gwella ac a yw'n gwneud gwahaniaeth i'w ddinasyddion. Dewiswyd chwe mesur i'w harchwilio yn 2012-13. Dangosodd ein canfyddiadau bod angen gosod amodau ar ddau o'r dangosyddion lleol oherwydd gwendidau yn y trefniadau sylfaenol a'r data a gofnodwyd.

Mae'r Tîm Gwella Corfforaethol wedi parhau i gynnal gwiriadau dilysu er mwyn sicrhau ansawdd mewnbwn data gan feysydd gwasanaeth drwy wirio data cofnodedig yn erbyn tystiolaeth ategol Ffynnon. Mae'r broses wirio yn gallu canfod unrhyw wallau ac mae'n arwain at argymhellion ar gyfer camau pellach gan feysydd gwasanaeth i fynd i'r afael â gwendidau a nodwyd. Yn sgil trafodaethau â swyddogion ac adolygiad o gyfraddau cywirdeb gwiriadau dilysu, daeth nifer o wallau i'r amlwg mewn rhai achosion, ac roedd angen newid gwybodaeth am berfformiad gwasanaethau ar ôl ei chyflwyno i'r Tîm Gwella Corfforaethol. Mae hyn yn dangos pwysigrwydd gwaith y tîm corfforaethol o ran sicrhau dilysrwydd data sylfaenol, ond mae hefyd yn dangos bod angen i rai meysydd gwasanaeth wella ansawdd eu data. Mae hyn yn arbennig o berthnasol mewn perthynas â dangosyddion gwasanaethau lleol. Er bod prosesau dilysu annibynnol i'w croesawu, ni

[1] Meddalwedd a gaffaelwyd ar lefel genedlaethol yw Ffynnon i ateb gofynion rheoli perfformiad awdurdodau lleol, gwasanaethau tân ac achub ac awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru a'u partneriaid.

ddylent atal meysydd gwasanaeth rhag sicrhau bod gwybodaeth gywir am berfformiad yn cael ei pharatoi ar egwyddor 'gywir y tro cyntaf'.

Yn ogystal, daethom i'r casgliad nad oedd cynnydd digonol wedi'i wneud wrth ymateb i'r amodau a'r cynigion ar gyfer gwella sy'n deillio o'n canfyddiadau yn ymwneud ag ansawdd data'r llynedd, yn enwedig yn y meysydd canlynol:

- Nid yw'r gwasanaeth Addysg wedi llwyddo i roi unrhyw gamau ar waith i wella trefniadau ar gyfer y dangosydd 'Nifer yr achosion o fwlio yr adroddwyd yn eu cylch' ers ein hadolygiad diwethaf. Nid oes unrhyw ganllawiau ffurfiol ar waith eto i sicrhau bod achosion o fwlio yn cael eu cofnodi'n gyson ym mhob ysgol, ac nid oes unrhyw drefniadau wedi'u gwneud i sicrhau bod ffurflenni sy'n cofnodi nifer yr achosion o fwlio ym mhob ysgol yn cael eu dychwelyd bob tro.Nid yw'r meysydd gwasanaeth wedi datblygu neu gytuno ar gardiau cofnodi ar gyfer pob dangosydd lleol eto. O ganlyniad, ni fu cynnydd digonol o ran diffinio'r sylfaen ar gyfer casglu data'n glir a disgrifio'r ffiniau ar gyfer cofnodi a dogfennu gwybodaeth yn ffurfiol. Mae'r diffyg eglurder yn creu amwysedd, ac mae perygl y bydd dangosyddion gwasanaethau lleol yn agored i ddehongliad yn hytrach na chael eu coladu a'u hadrodd yn gadarn.
- Nid oes canllawiau a phrotocolau ffurfiol ar gyfer gosod targedau ar gyfer dangosyddion perfformiad wedi'u datblygu hyd yma.
- Yn ogystal, gosodwyd amodau ar y dangosydd 'Nifer y cleifion a gafodd eu hailddderbyn i'r ysbyty o fewn blwyddyn' yn 2011-12 oherwydd i'r Cyngor fethu â darparu neu adrodd unrhyw ffigur ar gyfer y Dangosydd Perfformiad. Mae'r mesur hwn wedi'i ddileu bellach nes bod system addas wedi'i datblygu i gasglu ac adrodd ar y dangosydd perfformiad mewn cydweithrediad â phartneriaid eraill Rhaglen Eiddilwch Gwent. Mae'r broses yn cael ei harwain gan swyddogion Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Ar nodyn mwy cadarnhaol, mae cyfraniad aelodau at adolygu perfformiad yn cael ei gryfhau. Mae sesiynau her ffurfiol gyda'r Aelod Gweithredol ar gyfer Llywodraethu Corfforaethol a sefydlwyd yn 2009 yn parhau i wella ac mae swyddogion yn cael eu herio ar sail eu perfformiad yn erbyn targedau. Os oes angen, gellir cyfeirio camau gweithredu o'r cyfarfodydd hyn i'r pwyllgor craffu priodol i'w hystyried ymhellach. Yn ogystal, adolygodd y cydbwyllgor craffu berfformiad cyffredinol y Cyngor yn erbyn y mesurau ac amcanion gwella ar gyfer 2012-13 yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2013. Mae'r trefniadau hyn yn rhoi cyfle i graffu'n rheolaidd ar berfformiad y Cyngor yn erbyn ei amcanion, ei weithgareddau a'i fesurau gydol y flwyddyn. Fodd bynnag, mae angen i'r Cyngor sicrhau bod aelodau'r pwyllgorau craffu yn cael digon o wybodaeth briodol a'r cyfle i holi swyddogion ac Aelodau'r Cabinet ynghylch perfformiad gwasanaethau a sicrhau bod camau lliniaru yn cael eu nodi er mwyn ymateb i'r mesurau nad ydynt yn debygol o gyrraedd y targedau. Byddwn yn asesu effeithiolrwydd y trefniadau hyn fel rhan o'n gwaith parhaus.

Mae targedau perfformiad wedi'u pennu ar gyfer y rhan fwyaf o Ddangosyddion Gwasanaethau Cenedlaethol, ond nid ydynt wedi'u pennu'n gadarn ar gyfer pob mesur

lleol. Mae system rheoli perfformiad Ffynnon yn cynnwys data targed, ac mae lefelau ymyrraeth wedi'u pennu i nodi pryd mae perfformiad gwirioneddol yn wahanol i'r targed. Yn dilyn trafodaethau â swyddogion, rydym wedi canfod mai ychydig iawn o reolaeth sydd dros lefelau ymyrraeth ar ôl eu pennu, a gall swyddogion meysydd gwasanaeth eu newid unrhyw bryd. Mae angen cyflwyno mesurau rheoli gwell i reoli newidiadau i lefelau ymyrraeth er mwyn sicrhau nad yw perfformiad gwasanaethau yn erbyn targedau yn cael ei ystumio a bod cyfiawnhad dilys dros newid targedau perfformiad.

Cyflwynir canfyddiadau manwl ein hadolygiad o ansawdd data 2012-13, ynghyd â'n cynigion ar gyfer gwella, mewn adroddiad ar wahân i'r Cyngor.

**Mae'r Cyngor yn rheoli ei gyllideb gyffredinol yn dda, ac mae'n parhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol gyda llai o arian, ond mae angen iddo gryfhau sut mae'n gwerthuso effaith arbedion er mwyn sicrhau nad yw gwasanaethau'n anghynaliadwy yn y dyfodol**

Ar ôl etholiad mis Mai 2010, cynhaliodd Llywodraeth y DU Adolygiad o Wariant, a gwblhawyd ym mis Hydref 2010. Yn 2011-12, derbyniodd cynghorau Cymru £155 miliwn (3.8 y cant) yn llai o gyllid refeniw mewn termau real gan Lywodraeth Cymru. Yn ôl y ffigurau dangosol, bydd cyllid refeniw Llywodraeth Cymru tua £283 miliwn (saith y cant) yn llai yn 2013-14 nag yn 2010-11 mewn termau real. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru weithredu'r toriadau hyn yng Nghymru, sy'n golygu bod yn rhaid i bob cyngor yng Nghymru wneud penderfyniadau anodd ynglŷn â sut i ymdopi â gostyngiadau mewn cyllid, sy'n cael effaith uniongyrchol ar wasanaethau a phobl leol.

O ganlyniad, mae cynghorau o dan bwysau cynyddol i leihau costau, ond mae ganddynt ddyletswydd o hyd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Gan fod y gofynion i leihau costau mor sylweddol, bydd rhaid i gynghorau ystyried mwy nag arbedion tymor byr yn unig a meddwl yn fwy radical am sut i leihau costau'r busnes a chynnal y broses hon yn fwy hirdymor wrth barhau i wella gwasanaethau. Er mwyn lleihau gwariant yn effeithiol, mae'n rhaid i adrannau gynnal trosolwg strategol er mwyn osgoi erydu ansawdd gwasanaethau mewn meysydd blaenoriaeth. Dylai cynghorau roi blaenoriaeth glir i'r gwasanaethau pwysicaf yn dilyn asesiad cywir a realistig o gostau, manteision a risgiau'r opsiynau.

Yn ystod 2012-13, aethom ati i adolygu i ba raddau roedd y Cyngor yn ymdopi â llai o adnoddau. Daethom i'r casgliad bod y Cyngor yn gallu rheoli ei gyllideb gyffredinol yn dda a'i fod yn parhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol gyda llai o arian. Fodd bynnag, mae angen iddo gryfhau sut mae'n gwerthuso effaith arbedion er mwyn sicrhau nad yw gwasanaethau'n anghynaliadwy yn y dyfodol.

Daethom i'r casgliad hwn ar ôl canfod bod y Cyngor yn monitro ei gyllideb o ddydd i ddydd yn dda, bod arbedion wedi'u cymeradwyo a gwariant yn lleihau. Fodd bynnag, nid yw goblygiadau toriadau i'r gyllideb yn cael eu nodi bob tro, ac mae gwendidau mewn rhai agweddau ar fonitro a gwerthuso targedau arbedion. Daethom i'r casgliad bod y Cyngor

yn deall y pwysau y mae'n eu hwynebu o safbwynt costau, a bod systemau da ar waith i asesu ac adolygu ei sefyllfa ariannol tymor canolig. Mae prosesau da ar waith i nodi a chytuno ar gynlluniau arbedion, ond nid yw'r Aelodau'n craffu'n ddigonol ar weithredu'r cynlluniau hyn a'u heffaith ar berfformiad gwasanaethau. Mae'r Cyngor wedi rhoi gwybod am yr heriau ariannol, ac yn gyffredinol mae'r staff yn gwybod am y pwysau ariannol wrth symud ymlaen.

Aethom ati hefyd i ystyried sut mae'r Cyngor yn lleihau gwariant ac yn sicrhau arbedion mewn gwasanaethau penodol. Canolbwyntiodd ein hadolygiad ar dri maes gwasanaeth – Iechyd yr Amgylchedd, Tai a Rheoli Gwastraff – er mwyn deall i ba raddau y mae'r gwasanaethau unigol hyn yn cynllunio ar gyfer, ac yn gwneud arbedion. Gwelwyd bod gwasanaethau Iechyd yr Amgylchedd yn ymdopi â chyllidebau llai a bod y perfformiad yn gymysg. Fodd bynnag, nid yw'n glir a yw'r gwasanaethau yn gynaliadwy yn y tymor canolig i'r hirdymor. Mae perfformiad ym maes gwasanaethau Tai yn gymysg o hyd, ac er bod cynnydd wedi'i wneud o ran gwella effeithlonrwydd a gwerth am arian, mae'r gwasanaethau'n wynebu heriau sylweddol a bydd yn anodd gwneud rhagor o arbedion o ystyried yr angen cynyddol am dai. Yn olaf, mae Gwasanaeth Rheoli Gwastraff y Cyngor wedi derbyn buddsoddiad ariannol sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Hyd yma, nid yw'r gwasanaeth wedi dangos gwelliannau amlwg yn ei fesurau perfformiad allweddol ar gyfer gwasanaethau gwastraff ac ailgylchu.

Ar adeg pan fo adnoddau'n lleihau a phwysau'n cynyddu ar gyllidebau, mae'n bwysig bod cynghorau'n ymgysylltu â phobl leol ynglŷn â'u gwasanaethau ac yn deall sut mae newidiadau i ddarpariaeth gwasanaeth, o ganlyniad i benderfyniadau cyllidebol, yn effeithio ar y rhai sy'n eu derbyn. Gwelwyd bod trigolion Torfaen yn defnyddio amrywiaeth o wasanaethau'r Cyngor, ac yn gyffredinol, roedd mwyafrif y trigolion a fu'n siarad â ni yn fodlon â gwasanaethau'r Cyngor, er bod nifer fach yn anfodlon. Roedd y trigolion a fu'n siarad â ni hefyd o'r farn nad oedd ansawdd y rhan fwyaf o wasanaethau'r Cyngor wedi gwella na dirywio dros y flwyddyn ddiwethaf, ond roedd y mwyafrif yn teimlo bod cyflwr y ffyrdd yn parhau i ddirywio. Nid yw'r rhan fwyaf o drigolion yn ymwybodol o gynlluniau'r Cyngor ar gyfer y dyfodol ac a fydd y gwasanaethau a dderbyniant yn newid.

**Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn datblygu fframwaith i gefnogi ei adolygiad sylfaenol pedair blynedd o ddarpariaeth gwasanaethau a gwariant er mwyn helpu i gyflawni blaenoriaethau corfforaethol a rheoli'r gostyngiad disgwyliedig mewn cyllid**

Mabwysiadodd y Cyngor ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig ffurfiol cyntaf ym mis Chwefror 2012. Yn ogystal, sefydlodd 'Gynllun Cyllido' dangosol yn amlinellu cyfres o dargedau i geisio lleihau gwariant a/neu ddiwygio rhagolygon ariannol fel eu bod yn dod o fewn y cwmpas cyllido posibl sydd ar gael i'r Cyngor. Mae'r Cyngor wedi parhau i adolygu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, ac mae'r cynllun cyllido wedi'i ailasesu'n rheolaidd wrth i fesurau newydd gael eu datblygu i gau'r bwlch cyllido.

Yn sgil yr heriau ariannol digyffelyb sy'n wynebu'r Cyngor yn y dyfodol agos, mae wedi cydnabod bod gwneud toriadau cyffredinol er mwyn cael cyllideb gytbwys yn anghynaliadwy, a bod rhaid iddo roi mwy o bwyslais ar flaenoriaethu adnoddau, dulliau cyflenwi gwahanol a rheoli'r galw yn effeithiol. Mae'r Cyngor yn paratoi i wynebu rhagor o bwysau cyllido sylweddol yn y dyfodol. Ar sail amcangyfrifon a gyflwynwyd i gyfarfod y Cabinet ym mis Gorffennaf 2013, bydd effaith gronnol y pwysau dros y pedair blynedd nesaf tua £40 miliwn: £10 miliwn yn 2014-15; £10.4 miliwn yn 2015-16; £11.4 miliwn yn 2016-17 ac £8.1 miliwn yn 2017-18. Bydd yr union ffigurau yn cael eu cadarnhau pan fydd setliadau terfynol Llywodraeth Cymru yn hysbys a bod y Cyngor wedi cydnabod hwyrach fod angen toriadau mwy o lawer.

O ganlyniad i'r amcangyfrifon hyn, mae'r Cyngor wrthi'n cynnal 'adolygiad pedair blynedd' sylfaenol o'r gwasanaethau lleol y mae'n eu darparu ar hyn o bryd. Mae uwch swyddogion ac aelodau yn deall y bydd angen gwneud penderfyniadau anodd ynglŷn â pha wasanaethau y gellir eu cyllido o hyd, pa wasanaethau y maent yn cynnig eu dileu neu roi'r gorau i fuddsoddi ynddynt, a sut mae'r penderfyniadau hyn yn effeithio ar angen y Cyngor i amddiffyn y bobl sydd fwyaf agored i niwed mewn cymunedau.

Dechreuodd adolygiad pedair blynedd y Cyngor ym mis Mai 2013, ac mae wrthi'n datblygu fframwaith sy'n nodi elfennau 'wedi'u diogelu' a 'heb eu diogelu' o safbwynt cyllidebau gwasanaethau. Bydd y fframwaith hwn yn helpu Aelodau i gael gwell dealltwriaeth o elfennau perthnasol cyllidebau'r gwasanaethau, ac i ba raddau y gallant ddylanwadu arnynt fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau. Mae 'taflen ddata' wedi'i chreu ar gyfer pob maes gwasanaeth sy'n nodi'r pwysau a ragwelir ar y maes, a strwythurau a disgrifiadau swyddogaethol o ddarpariaeth y gwasanaeth. Datblygir y wybodaeth hon er mwyn modelu'r galw a'r angen am wasanaethau yn y dyfodol. Er bod y fframwaith hwn wrthi'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, mae'n amlygu cynnydd cadarnhaol o ran datblygu model cynllunio gwasanaethau a chynllunio ariannol effeithiol y gall y Cyngor barhau i'w ddatblygu dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf. Byddwn yn monitro cynnydd y broses o ddatblygu'r fframwaith hwn.

### Nid oes gan y Cyngor safonau gwasanaeth ffurfiol ac nid yw dinasyddion yn gallu barnu'n effeithiol pa mor dda y mae gwasanaethau gwastraff ac ailgylchu yn perfformio

Mae safonau gwasanaeth yn pennu'r hyn y gall trigolion ddisgwyl ei gael gan wasanaethau'r cyngor. Dylai trigolion gyfrannu at ddatblygu'r safonau, a dylai'r safonau egluro beth i'w ddisgwyl gan y gwasanaeth, beth sy'n cael ei ddisgwyl gan drigolion, ac o bosibl, yr hyn na fydd y gwasanaeth yn ei wneud neu ei ddarparu. Mae safonau gwasanaeth yn berthnasol i feysydd craidd fel mynediad, cost, ansawdd, prydlondeb a boddhad.

Yn fy *Adroddiad Gwella Blynyddol* yn 2011, gwnes gynnig penodol ar gyfer gwella gan nodi y dylai'r Cyngor 'nodi safonau gwasanaeth gofynnol ar gyfer pob maes gwasanaeth y gellir monitro perfformiad yn eu herbyn'. Roedd y Cyngor yn cydnabod bod hwn yn faes

i'w wella, ac fel rhan o'n rhaglen archwilio ar gyfer 2012-13, gofynnodd y Cyngor i ni ei helpu i lunio fframwaith safonau gwasanaeth. Cyflawnwyd ein gwaith yn ymwneud â safonau gwasanaeth yn ei wasanaeth gwastraff gan i'r Cyngor gydnabod nad oedd unrhyw safonau ffurfiol ar waith yn y gwasanaeth hwnnw.

Daeth ein hadolygiad i'r casgliad nad oes gan wasanaeth gwastraff y Cyngor safonau gwasanaeth ffurfiol, ac felly nid yw dinasyddion yn gallu barnu'n effeithiol pa mor dda y mae gwasanaethau gwastraff ac ailgylchu yn perfformio. Mae'r wybodaeth a'r trefniadau y mae'r Cyngor yn eu defnyddio i wella'r gwasanaeth gwastraff yn annigonol. Mae perfformiad y gwasanaeth gwastraff yn cymharu'n anffafriol â pherfformiad cynghorau eraill yng Nghymru ac nid yw'r Cyngor yn gallu barnu beth yw ansawdd y gwasanaeth na'i effaith ar ddinasyddion. Oherwydd bod ei sylfaen wybodaeth yn gyfyngedig, bydd yn anodd i'r gwasanaeth gwastraff asesu a yw unrhyw safonau gwasanaeth a gyflwyna yn y dyfodol yn cael eu cyflawni. Mae'r gwendidau wrth gyfathrebu ynglŷn â newidiadau i'r gwasanaeth a lefelau perfformio yn gwaethygu'r sefyllfa. Mae cyfathrebu o'r fath yn anghyson, yn hawdd ei fethu ac yn methu cael y canlyniad dymunol bob amser.

**Ym mis Chwefror 2013, adroddodd Estyn fod cynnydd y Cyngor wrth ymateb i arolygiad Hydref 2011 o wasanaethau addysg wedi bod yn araf, a chafodd y Cyngor ei atgyfeirio i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau ar gyfer mesurau arbennig**

Cwblhaodd Estyn ymweliad dilynol ym mis Chwefror 2013 er mwyn monitro'r cynnydd a wnaed gan y Cyngor i wella ei wasanaethau addysg yn dilyn arolygiad Gwasanaethau Addysg Plant a Phobl Ifanc yr Awdurdod Lleol ym mis Hydref 2011. Daeth yr ymweliad monitro i'r casgliad bod y Cyngor wedi gwneud cynnydd annigonol yn erbyn y rhan fwyaf o argymhellion y tîm arolygu. Bu gwelliannau'n araf ac roedd safonau cyrhaeddiad mewn ysgolion uwchradd yn parhau'n anfoddhaol. Yn gyffredinol, penderfynodd yr arolygwyr fod y Cyngor wedi gwneud cynnydd annigonol o ran mynd i'r afael ag argymhellion adroddiad yr arolygiad, a bod angen mesurau arbennig mewn perthynas â'r Cyngor. Mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau yn ystyried hyn ar hyn o bryd.

## Argymhellion

Rwy'n cyflwyno isod un argymhelliad statudol ar gyfer gwella o dan adran 19 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Mae'n rhaid i'r Cyngor ymateb i'r argymhelliad hwn yn gyhoeddus o fewn 30 diwrnod.

| **Argymhelliad** | |
|---|---|
| A1 | Sicrhau bod trefniadau yn cael eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â chynigion ar gyfer gwella, sydd heb eu cyflawni eto, sy'n deillio o'n hadolygiad o ansawdd data yn 2012. |

## Cynigion ar gyfer gwella a gyhoeddwyd hyd yma

## Isod rwy'n crynhoi'r cynigion ar gyfer gwella a wnaed i'r Cyngor o ganlyniad i waith asesu a gyflawnwyd drwy gydol y flwyddyn.

Byddwn yn parhau i fonitro ac adrodd ar y cynnydd a wneir gan y Cyngor mewn perthynas â gweithredu'r cynigion a nodwyd yn fy adroddiadau a'm llythyrau blaenorol.

**Cynigion ar gyfer gwella**

**Mynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella yn ein hadolygiad o effaith yn seiliedig ar Wasanaethau (Gorffennaf 2013)**

C1 Parhau i wella effeithlonrwydd a gwerth am arian drwy:

- nodi a chytuno ar ofynion statudol ac anstatudol pob gwasanaeth;
- pennu 'safonau perfformiad derbyniol' ar gyfer pob gwasanaeth (uchaf ac isaf) a hysbysu dinasyddion amdanynt;
- nodi a mynd ati'n rheolaidd i gasglu data ar berfformiad a'r galw/angen am bob gwasanaeth y Cyngor;
- dadansoddi data a gasglwyd i lywio a deall y berthynas rhwng 'cost: perfformiad: effaith'; and
- nodi opsiynau eraill ar gyfer gwella effeithlonrwydd a chynnal perfformiad yn unol â'r lefel y cytunwyd arni.

C2 Sicrhau bod targedau cymeradwy ar gyfer arbedion yn cael eu cyrraedd drwy:

- graffu ar gynlluniau arbedion yn rheolaidd ac effeithiol; a
- herio gwasanaethau a sicrhau eu bod yn atebol am eu perfformiad.

**Mynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella yn ein Hadolygiad o Safonau Gwasanaeth (Gorffennaf 2013)**

C3 Defnyddio gwybodaeth sydd eisoes yn bodoli i ddatblygu a threialu un set o safonau gwasanaeth cynhwysfawr ar gyfer gwasanaethau gwastraff. Dylai'r Cyngor:

- ddwyn ynghyd y wybodaeth sydd eisoes yn bodoli am ddarpariaeth a pherfformiad gwasanaethau;
- datblygu ystod gynhwysfawr o safonau gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau gwastraff, gan ystyried ymarfer mewn llefydd eraill (gweler Atodiad 1);
- adolygu'r cynllun peilot a gwella safonau gwasanaeth drafft ar gyfer gwastraff; ac
- ymestyn safonau gwasanaeth i wasanaethau eraill y Cyngor.

**Ymestyn safonau gwasanaeth i wasanaethau eraill y Cyngor**

C4 Dylai'r Cyngor adolygu'r safonau gwasanaeth peilot ar gyfer gwasanaethau gwastraff ac ymestyn y cynllun peilot i wasanaethau eraill y Cyngor.

**Cynigion ar gyfer gwella**

**Cyflwyno dulliau o gefnogi'r safonau newydd ar gyfer gwasanaethau gwastraff**

C5 Dylai'r Cyngor gytuno, hysbysu, mesur, adrodd ar, ac adolygu a gwerthuso'r safonau ar gyfer gwasanaethau gwastraff.

## Cynigion pellach ar gyfer gwella

Ceir rhai cynigion newydd ar gyfer gwella yn y llythyr hwn. Byddwn yn parhau i fonitro ac adrodd ar y cynnydd a wneir gan y Cyngor mewn perthynas â gweithredu'r cynigion hyn.

**Mynd i'r afael â chynigion ar gyfer gwella**

C6 Gwella trefniadau hunanwerthuso i asesu cynnydd a wnaed o ran mynd i'r afael ag argymhellion rheoleiddwyr ac arolygiaethau allanol drwy:

- sicrhau bod aelodau'n herio cynnydd swyddogion wrth fynd i'r afael ag argymhellion a chynigion ar gyfer gwella;
- darparu hunanwerthusiad agored a thryloyw o'r cynnydd a wnaed o ran gwella ei drefniadau a lle mae angen gwelliannau pellach; ac
- ehangu cwmpas Cynllun Gweithredu Sengl y Cyngor i ymgorffori'n llawn argymhellion o waith Estyn ac AGGCC, i ddangos yn fwy eglur y cynnydd a wnaed o ran mynd i'r afael â chanfyddiadau rheoleiddwyr ac arolygiaethau allweddol eraill.

**Gwella ansawdd dilysu data ar berfformiad mewn meysydd gwasanaeth**

C7 Datblygu rhaglen safonol o wiriadau dilysu data i'w cynnal ar fesurau a gyhoeddir a mesurau lleol i gadarnhau cywirdeb y data cyn ei gyflwyno i'r tîm Gwella Corfforaethol.

**Gwella sut mae aelodau'n herio ac yn craffu ar berfformiad gwasanaethau yn ystod y flwyddyn yn erbyn mesurau a thargedau**

C8 Dylai'r Cyngor sicrhau bod aelodau pwyllgorau craffu yn cael digon o wybodaeth briodol a'r cyfle i holi swyddogion ac Aelodau'r Cabinet am berfformiad gwasanaethau drwy gydol y flwyddyn.

**Gwella rheolaeth dros newidiadau i lefelau ymyrraeth targedau gwasanaethau**

C9 Cryfhau mesurau rheoli newid i reoli newidiadau i lefelau ymyrraeth targed y cytunwyd arnynt er mwyn sicrhau nad yw perfformiad gwasanaethau yn erbyn targedau yn cael ei ystumio a bod cyfiawnhad gwirioneddol ar gyfer newidiadau i dargedau perfformiad yn ystod y flwyddyn.

## Diweddariadau i'r cynllun gwaith a'r amserlen

Bydd fy Nhîm Asesiad Gwella yn hysbysu'r Cyngor am drefniadau manwl fy ngwaith asesu.

Mae'r cynllun gwaith a'r amserlen yn cael eu diweddaru'n rheolaidd ac yn darparu mwy o wybodaeth am y gwaith sy'n cael ei wneud yn ystod asesiad eleni, yn enwedig sut y byddwn yn ychwanegu gwerth drwy ganolbwyntio ar feysydd neu wasanaethau a gafodd eu nodi ar y cyd.

Mae'r cynllun gwaith a'r amserlen yn ystyried fy ymgynghoriad ag awdurdodau gwella ar fy nghynigion ar gyfer gwaith i archwilio perfformiad yn 2013-14. Yn benodol, yn ystod y flwyddyn byddaf yn gofyn i'm Tîm Asesiad Gwella ystyried i ba raddau y gallwn ddibynnu ar y prosesau hunanasesu (gan gynnwys eich adolygiad o lywodraethu wrth lunio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'ch Adroddiad Perfformiad Blynyddol). Byddaf yn cynnwys sylwadau ar hyn yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol.

Rwy'n ddiolchgar i'r Cyngor am helpu i hwyluso ein gwaith ac yn gobeithio y bydd trefniadau sydd hyd yn oed yn fwy effeithiol ac effeithlon yn datblygu dros amser. Rwy'n parhau'n ymroddedig i ddarparu lefelau priodol o sicrwydd cyhoeddus gan eich helpu i liniaru'r risgiau anorfod i wasanaethau a'r atebolrwydd sy'n deillio o dorri adnoddau a'r newid a ddaw yn ei sgil.

Yn gywir

**HUW VAUGHAN THOMAS**

**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

CC: Lesley Griffiths, Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth

Non Jenkins – Rheolwr Rhanbarthol

Nick Selwyn – Arweinydd Archwilio Perfformiad

# Atodiad 1

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd |
| --- | --- |
| 1. Gwerthuso ac adrodd ar yr effaith mae cyllidebau llai yn ei chael ar wasanaethau rheng flaen i nodi'r peryglon sy'n codi o benderfyniadau buddsoddi ac ymdrin â'r rhain. | **Mae rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud wrth fynd i'r afael â'r cynnig hwn ar gyfer gwella.**<br>Cynhaliwyd asesiad o'r effaith ar wasanaethau yn sgil y gostyngiad mewn cyllidebau ac adnoddau. Roedd yr adolygiad hwn yn nodi ac yn asesu effaith lleihau adnoddau refeniw, cyfalaf ac adnoddau dynol ar wasanaethau, ac yn gwerthuso a yw'r Cyngor yn parhau i gyflawni ei rwymedigaethau statudol a'i amcanion gwella yn effeithiol. Daeth ein hadolygiad i'r casgliad bod y Cyngor yn gallu rheoli ei gyllideb gyffredinol yn dda a'i fod yn parhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol gyda llai o arian. Fodd bynnag, mae angen iddo gryfhau sut mae'n gwerthuso effaith arbedion er mwyn sicrhau nad yw gwasanaethau'n anghynaliadwy yn y dyfodol.<br>Mae'r Cyngor wrthi'n cynnal 'adolygiad pedair blynedd' sylfaenol o'r gwasanaethau lleol y mae'n eu cyflenwi ar hyn o bryd. Dechreuodd y Cyngor ei adolygiad pedair blynedd ym mis Mai 2013, ac er ei fod wrthi'n ei ddatblygu ar hyn o bryd, mae'n dangos cynnydd clir tuag at ddatblygu model cynllunio gwasanaethau a chynllunio ariannol effeithiol, a bydd y Cyngor yn parhau i'w ddatblygu dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf. Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd y Cyngor mewn perthynas â chynnal yr adolygiad hwn, gan bwyso a mesur effaith y gwaith yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol.<br>**Mae'r cynnig hwn ar gyfer gwella yn aros yn agored.** |
| 2. Parhau i fynd i'r afael â'r cynigion a'r camau gweithredu ar gyfer gwella a nodwyd mewn adroddiadau archwilio a rheoleiddio blaenorol. | **Cafwyd cynnydd cymysg wrth fynd i'r afael â'r cynnig hwn ar gyfer gwella.**<br>Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd cymysg wrth fynd i'r afael â'r cynigion a'r camau gweithredu ar gyfer gwella. Caiff cynnydd ei fonitro drwy Gynllun Gweithredu Sengl y Cyngor, sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd gan swyddogion ac aelodau'r Pwyllgor Archwilio. Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd y Cyngor wrth gyflawni'r camau gweithredu hyn, gan bwyso a mesur effaith y gwaith yn ein gwaith lleol a'r Adroddiad Gwella Blynyddol.<br>**Mae'r cynnig hwn ar gyfer gwella wedi'i ddisodli gan argymhelliad statudol a chynnig arall ar gyfer gwella.**<br>Mae argymhelliad statudol wedi'i wneud o ganlyniad i gynnydd cyfyngedig y Cyngor wrth fynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella sy'n deillio o'n hadolygiad o ansawdd data yn 2012. |

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd |
|---|---|
| 3. Pennu mesurau llwyddiant clir ar gyfer yr holl amcanion a chefnogi gwaith monitro perfformiad effeithiol trwy adrodd am ganlyniadau yn glir a rheolaidd. | **Mae rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud wrth fynd i'r afael â'r cynnig hwn ar gyfer gwella.**<br>Defnyddir fframwaith cyson i bennu'r Amcanion Gwella yn y Cynllun Gwella Tua'r Dyfodol. Mae hyn yn cynnwys:<br>• datganiad cyffredinol ar ddisgwyliadau gwella'r Cyngor yn ystod oes Cynllun Corfforaethol 2;<br>• dangosyddion canlyniadau cyffredin i helpu i ddangos cynnydd tuag at gyflawni'r canlyniad;<br>• gweithgareddau allweddol i'w cyflawni yn 2013-14; a<br>• mesurau perfformiad allweddol i asesu cynnydd.<br>Mae rhai o'r Amcanion Gwella yn eang, ac yn dangos yn glir i ddinasyddion beth yw'r disgwyliadau o ran gwella. Fodd bynnag, nid yw Amcanion Gwella eraill yn cynnwys tystiolaeth gyson ar gyfer y cysylltiad rhwng yr Amcanion Gwella a'r mesurau llwyddiant, y data sylfaenol a'r targedau ar gyfer gwella. Byddwn yn parhau i fonitro sut mae'r Cyngor yn rheoli perfformiad, yn enwedig mewn perthynas â'i Amcanion Gwella, gan nodi ein canfyddiadau yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol.<br>**Mae'r cynnig hwn ar gyfer gwella yn aros yn agored.** |
| 4. Gwella trefniadau hunanasesu ac adrodd am berfformiad. | **Mae rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud wrth fynd i'r afael â'r cynnig hwn ar gyfer gwella.**<br>Mae'r Cyngor yn cyhoeddi ei Gynllun Gwella Tua'r Dyfodol yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac mae'n gwella lefel y wybodaeth sydd ar gael yn ddwyieithog. Byddwn yn parhau i fonitro sut mae'r Cyngor yn cyflawni ei ymrwymiadau strategol mewn perthynas â'r Gymraeg, gan grynhoi casgliadau allweddol adroddiad monitro blynyddol Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol.<br>Mae'r Cyngor wedi ymateb i ganfyddiadau ein hadolygiad llywodraethu drwy sefydlu Grŵp Swyddogion Llywodraethu Corfforaethol i adolygu a chryfhau ei drefniadau llywodraethu corfforaethol, ac mae wedi ymateb yn gadarnhaol i'n canfyddiadau wrth hunanwerthuso ei drefniadau yn ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol drafft 2012-13.<br>**Mae'r cynnig hwn ar gyfer gwella yn aros yn agored.** |

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd |
|---|---|
| 5. Rhoi hyfforddiant ar waith i helpu aelodau dibrofiad i gyflawni eu cylch gwaith yn effeithiol. | **Mae rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud wrth fynd i'r afael â'r cynnig hwn ar gyfer gwella.**<br>Mae asesiadau o anghenion disodli cyfarpar TG a hyfforddiant wedi'u cynnal ar gyfer pob aelod yn dilyn etholiadau mis Mai 2012. Yn ogystal, darparodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) hyfforddiant penodol ar gyfer Cadeiryddion pob Pwyllgor Craffu ym mis Gorffennaf 2013 er mwyn helpu i ddatblygu dealltwriaeth well o'r broses graffu.<br>Mae'r Cyngor wedi cwblhau adolygiad mawr o weithgarwch craffu a chymorth ar gyfer aelodau yn ddiweddar, gan weithio mewn partneriaeth â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Mae'r adolygiad hwn wedi canolbwyntio ar gryfhau cymorth i aelodau a helpu cynghorwyr i gyflawni eu cyfrifoldebau a'u dyletswyddau yn fwy effeithiol. Rydym yn bwriadu cynnal astudiaeth leol Cymru gyfan ar graffu yn ystod hydref 2012, gan nodi ein canfyddiadau yn ein Hadroddiad Asesiad Gwella. Byddwn yn adrodd ar ein Hadolygiad Craffu mewn Adroddiad cenedlaethol yn ystod hydref 2013.<br>**Mae'r cynnig hwn ar gyfer gwella yn aros yn agored.** |
| 6. Gwella gwybodaeth am gostau unedau, costau gweithgarwch, meincnodau a mesurau perfformiad ariannol eraill i helpu i wneud penderfyniadau ariannol mwy gwybodus. | **Mae cynnydd araf wedi'i wneud wrth fynd i'r afael â'r cynnig hwn ar gyfer gwella.**<br>Mae'r cyngor wedi gwneud gwaith cyfyngedig ar feincnodi a chymharu costau. Yn hytrach, mae'r Cyngor wedi ceisio gwella ei gynlluniau ariannol a'i ddadansoddiad o werth am arian drwy ei gynllun ariannol tymor canolig. Mae hyn yn galluogi'r Cyngor i ddiweddaru perfformiad presennol a'r rhagdybiaethau sylfaenol sy'n effeithio ar wneud defnydd gwell o'r arian sydd ar gael.<br>**Mae'r cynnig hwn ar gyfer gwella yn aros yn agored.** |
| 7. Nodi safonau gwasanaeth gofynnol ar gyfer pob maes gwasanaeth y gellir monitro perfformiad yn eu herbyn. | **Mae cynnydd araf wedi'i wneud wrth fynd i'r afael â'r cynnig hwn ar gyfer gwella, ac eithrio yn y gwasanaeth Gwastraff.**<br>Mae'r Cyngor wedi gwneud rhywfaint o waith i nodi a phennu safonau gwasanaeth, ond nid yw'r gwaith wedi datblygu'n sylweddol ym mhob maes. Aethom ati i asesu safonau Gwasanaeth Gwastraff y Cyngor, ac mae camau yn cael eu rhoi ar waith i alluogi'r Cyngor i ddatblygu cyfres gynhwysfawr o safonau ar gyfer y gwasanaeth hwn dros y misoedd nesaf. Yn dilyn yr ymarferiad peilot ar gyfer y Gwasanaeth Gwastraff, bwriad y Cyngor oedd datblygu safonau gwasanaeth ym meysydd gwasanaeth eraill y Cyngor ond nid yw ei gynlluniau ar gyfer gwneud hynny yn glir.<br>**Mae'r cynnig hwn ar gyfer gwella yn aros yn agored ac fe'i hategwyd gan y cynigion ar gyfer gwella sy'n deillio o'n Hadolygiad o Safonau Gwasanaeth (Gorffennaf 2013).** |

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd |
|---|---|
| 8. Sicrhau bod trefniadau llywodraethu cadarn ac effeithiol ar waith wrth greu gwasanaethau integredig a chydweithredu, a bod eu heffaith yn cael ei gwerthuso'n rheolaidd. | **Mae rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud wrth fynd i'r afael â'r cynnig hwn ar gyfer gwella.**<br>Derbyniodd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau a Materion Corfforaethol y Cyngor adroddiad ym mis Tachwedd 2012 ar sut mae'r Cyngor yn gallu datblygu fframwaith ar gyfer ei weithgarwch cydweithredol. Mae'r fframwaith yn parhau i gael ei ddatblygu.<br>Rydym wrthi'n cwblhau casgliadau ein hadolygiad o risgiau llywodraethu cydweithredol sydd wedi nodi a mapio lefel y cydweithrediad o fewn y Cyngor ac wedi cynnal asesiad risg o effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu wrth sefydlu mentrau cydweithredol. Bydd yr Adroddiad Gwella Blynyddol yn cynnwys crynodeb o'n canfyddiadau.<br>**Mae'r cynnig hwn ar gyfer gwella yn aros yn agored.** |
| 9. Sicrhau bod pob Amcan Gwella yn adlewyrchu ac yn cynnwys yr ystod lawn o wasanaethau, mesurau a chamau gweithredu perthnasol a fydd yn galluogi'r Cyngor i asesu a yw canlyniadau cadarnhaol yn cael eu cyflawni i ddinasyddion. | **Mae rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud wrth fynd i'r afael â'r cynnig hwn ar gyfer gwella.**<br>Ar gyfer pob Amcan Gwella, mae'r Cyngor yn nodi'r hyn y mae'n bwriadu ei wneud dros oes y Cynllun Corfforaethol 2 er mwyn cyflawni'r amcan gwella. Fodd bynnag, ni chaiff y datganiadau ar ganlyniadau eu mesur, sy'n ei gwneud yn anodd gwybod sut mae'r mesurau yn cyfrannu at gyflawni'r amcan yn llwyddiannus, beth yn union yw llwyddiant cyffredinol a sut mae diffinio 'amcan wedi'i gyflawni'.<br>Mae cydweithio â meysydd gwasanaeth yn parhau er mwyn sicrhau bod eu cynlluniau a chynlluniau eu timau yn diffinio mesurau perfformiad gwell, sy'n canolbwyntio mwy ar ganlyniadau ar gyfer eu gweithgareddau. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen gwneud rhagor o waith yn y cyswllt hwn.<br>Nid oes tystiolaeth gyson ar gael eto ar gyfer y cysylltiad rhwng yr Amcanion Gwella a'r mesurau llwyddiant, y data sylfaenol a'r targedau ar gyfer gwella. Nid yw rhai mesurau wedi'u disgrifio'n glir ac mae'n anodd gwybod a yw alldro perfformiad uwch neu is yn well neu'n waeth. Yn ogystal, mae mesurau newydd wedi'u cyflwyno ar gyfer rhai amcanion gwella yn 2012-13. Mewn rhai achosion, nid yw'n glir pam y dewiswyd y rhain neu sut mae'r mesurau ychwanegol yn dangos cynnydd tuag at gyflawni'r amcan gwella. Mae amcanion gwella a gweithgareddau cysylltiedig y Cyngor yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd fel rhan o'r adolygiad pedair blynedd sylfaenol o wariant a blaenoriaethau.<br>Byddwn yn parhau i fonitro sut mae'r Cyngor yn rheoli perfformiad, yn enwedig mewn perthynas â'i Amcanion Gwella, gan adrodd ar ein canfyddiadau yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol.<br>**Mae'r cynnig hwn ar gyfer gwella yn aros yn agored.** |

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd |
|---|---|
| 10. Gwella ansawdd gwybodaeth a ddefnyddir i ategu tybiaethau allweddol y broses cynllunio ariannol tymor canolig a nodi effaith ariannol debygol galw cynyddol am wasanaethau a demograffeg sy'n newid. | **Mae rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud wrth fynd i'r afael â'r cynnig hwn ar gyfer gwella.**<br>Mae'r Cyngor wrthi'n cynnal 'adolygiad pedair blynedd' sylfaenol o'r gwasanaethau lleol y mae'n eu darparu ar hyn o bryd. Dechreuodd y Cyngor ei adolygiad pedair blynedd ym mis Mai 2013, ac er ei fod wrthi'n ei ddatblygu ar hyn o bryd, mae'n dangos cynnydd clir tuag at ddatblygu model cynllunio gwasanaethau a chynllunio ariannol effeithiol, a bydd y Cyngor yn parhau i'w ddatblygu dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf. Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd y Cyngor wrth gynnal yr adolygiad hwn ac yn pwyso a mesur effaith y gwaith yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol.<br>**Mae'r cynnig hwn ar gyfer gwella yn aros yn agored.** |
| 11. Datblygu'r cynlluniau ariannu, ochr yn ochr â mireinio a datblygu'r broses Cynllunio Ariannol Tymor Canolig, gan ddangos sut yr eir i'r afael â'r diffygion ariannol a ragwelir a sut y caiff pwysau sy'n seiliedig ar wasanaethau eu rheoli yn y dyfodol. | **Mae rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud wrth fynd i'r afael â'r cynnig hwn ar gyfer gwella.**<br>Cynhaliwyd asesiad o'r effaith ar wasanaethau yn sgil y gostyngiad mewn cyllidebau ac adnoddau. Roedd yr adolygiad hwn yn nodi ac yn asesu effaith lleihau adnoddau refeniw, cyfalaf ac adnoddau dynol ar wasanaethau, ac yn gwerthuso a yw'r Cyngor yn parhau i gyflawni ei rwymedigaethau statudol a'i amcanion gwella yn effeithiol. Daeth ein hadolygiad i'r casgliad bod y Cyngor yn gallu rheoli ei gyllideb gyffredinol yn dda a'i fod yn parhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol gyda llai o arian. Fodd bynnag, mae angen iddo gryfhau sut mae'n gwerthuso effaith arbedion er mwyn sicrhau nad yw gwasanaethau'n anghynaliadwy yn y dyfodol.<br>**Mae'r cynnig hwn ar gyfer gwella yn aros yn agored.** |
| 12. Cydymffurfio mwy â chanllawiau Llywodraeth Cymru drwy:<br>• fynegi barn y Cyngor am ei lwyddiant o ran cyflawni ei Amcanion Gwella;<br>• defnyddio sylfaen dystiolaeth ehangach o wybodaeth i alluogi'r Cyngor i asesu pa un a yw wedi cyflawni ei Amcanion Gwella; a<br>• chynyddu hygyrchedd dinasyddion gymaint â phosibl at asesiad perfformiad y Cyngor. | **Mae rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud wrth fynd i'r afael â'r cynnig hwn ar gyfer gwella.**<br>Cynhaliwyd cyfarfod rhwng holl Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu'r Cyngor ym mis Gorffennaf 2013 er mwyn ystyried cynnydd y meysydd gwasanaeth tuag at gyflawni'r amcanion gwella yn 2012-13. Dilynodd hyn ymarferiad a oedd yn gofyn i bob Prif Swyddog gyflwyno diweddariad ar y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni gweithgareddau gwella'r Cyngor fel y'u cyhoeddwyd yng Nghynllun Gwella Tua'r Dyfodol 2012-13.<br>Yn ogystal, cynhaliodd yr Aelod Gweithredol ar gyfer Llywodraethu Corfforaethol sesiynau adolygu perfformiad ar gyfer y perfformiad yr adroddwyd arno erbyn diwedd 2012-13. Derbyniwyd ei ganfyddiadau gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu fel rhan o'u gweithgarwch craffu.<br>Byddwn yn diweddaru ein hasesiad o gynnydd y Cyngor yn dilyn ein hadolygiad o Adroddiad Perfformiad y Cyngor ym mis Hydref 2013.<br>**Mae'r cynnig hwn ar gyfer gwella yn aros yn agored.** |

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd |
|---|---|
| 13. Gwella rheoli perfformiad drwy:<br>• gryfhau rôl Craffu er mwyn ysgogi gwelliant; a<br>• sicrhau bod effaith gweithgarwch yn cael ei mesur yn fwy effeithiol er mwyn barnu deilliannau mewn perthynas â dinasyddion a defnyddwyr gwasanaethau yn well. | **Mae rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud wrth fynd i'r afael â'r cynnig hwn ar gyfer gwella.**<br>Darparodd CLlLC hyfforddiant penodol ar gyfer Cadeiryddion pob Pwyllgor Craffu ym mis Gorffennaf 2013 er mwyn helpu i ddatblygu dealltwriaeth well o'r broses graffu.<br>Yn ogystal, adolygodd cydbwyllgor craffu'r Cyngor berfformiad cyffredinol y Cyngor yn erbyn mesurau ac amcanion gwella ar gyfer 2012-13 yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2013. Dylai'r Cyngor geisio sicrhau bod y pwyllgorau craffu yn adolygu ei berfformiad yn fwy rheolaidd yn erbyn ei amcanion, ei weithgareddau a'i fesurau gydol y flwyddyn. Bydd adolygiadau rheolaidd yn rhoi digon o gyfle i aelodau graffu ar berfformiad gwasanaethau a herio swyddogion ynghylch hynny a sicrhau bod camau lliniaru yn cael eu nodi er mwyn ymateb i'r mesurau nad ydynt yn debygol o gyrraedd y targedau.<br>**Mae'r cynnig hwn ar gyfer gwella yn aros yn agored.** |
| 14. Sicrhau bod pob gwasanaeth yn mynd ati'n gyson i werthuso ac adrodd am berfformiad o ran cyflawni amcanion gwella. | Gweler sylwadau yn 12 a 13 uchod. |
| 15. Dylai meysydd gwasanaeth ddarparu tystiolaeth ffurfiol o brosesau dilysu a gyflawnwyd cyn cyflwyno gwybodaeth am berfformiad i'r Tîm Gwella Corfforaethol i ddangos bod cywirdeb y wybodaeth wedi'i wirio a'i ddilysu. | **Mae rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud wrth fynd i'r afael â'r cynnig hwn ar gyfer gwella.**<br>Mae'r Tîm Gwella Corfforaethol wedi parhau i ddefnyddio gwiriadau dilysu i sicrhau ansawdd y data a ddaw i law gan feysydd gwasanaeth drwy wirio'r data a adroddir yn erbyn y dystiolaeth ategol a geir drwy Ffynnon. Mae trafodaethau gyda swyddogion a'n hadolygiad o gyfraddau cywirdeb gwiriadau dilysu wedi dangos bod nifer o wallau wedi'u canfod mewn rhai achosion, a bu'n rhaid diwygio gwybodaeth am berfformiad gwasanaethau ar ôl ei chyflwyno i'r Tîm Gwella Corfforaethol. Er bod rheolwyr gwybodaeth am berfformiad yn gwirio data cyn ei gyflwyno i'r Tîm Gwella Corfforaethol, gellir gwella eto ar ansawdd y gwiriadau a wneir gan wasanaethau.<br>**Mae'r cynnig hwn ar gyfer gwella yn aros yn agored.** |

| Cynigion ar gyfer gwella | Cynnydd |
|---|---|
| 16. Dylai'r Tîm Gwella Corfforaethol drafod gyda'r tîm Archwilio Mewnol y posibilrwydd o ddatblygu adolygiad penodol seiliedig ar risg o wybodaeth am berfformiad ar gyfer y meysydd gwasanaeth hynny lle mae ansawdd y data yn broblem gyson. | **Mae cynnydd da wedi'i wneud wrth fynd i'r afael â'r cynnig hwn ar gyfer gwella.** Lle mae'r Tîm Gwella Corfforaethol wedi nodi problemau sylweddol neu gyson o ran ansawdd data, mae wedi gweithio'n agos gyda Thîm Archwilio Mewnol y Cyngor yn ystod y flwyddyn i ofyn am gynnal gwaith ychwanegol. Mae'r broses hon wedi arwain at nodi a gweithredu gwelliannau i brosesau casglu ac adrodd data ar gyfer nifer o ddangosyddion, yn cynnwys nifer yr achosion o dipio anghyfreithlon (STS/006) a nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus (LCL/001b). **Mae'r cynnig hwn ar gyfer gwella wedi'i gau.** |
| 17. Dylai cardiau cofnod gael eu datblygu a'u cytuno gan feysydd gwasanaeth ar gyfer pob dangosydd lleol. Dylent gynnwys manylion y diffiniad o'r dangosydd perfformiad, paramedrau data a threfniadau ar gyfer casglu, cofnodi a monitro data i gefnogi'r dangosydd. | **Mae cynnydd araf wedi'i wneud wrth fynd i'r afael â'r cynnig hwn ar gyfer gwella.** Er bod cardiau cofnod wedi'u paratoi ar gyfer rhai dangosyddion lleol, nid ydynt ar waith ar gyfer pob dangosydd lleol ym mhob maes gwasanaeth. Mae gwiriadau sampl pellach a wnaed fel rhan o'r adolygiad o ansawdd data hefyd wedi cadarnhau bod modd gwella'r dangosyddion perfformiad sydd â chardiau cofnod hefyd er mwyn sicrhau bod y sail ar gyfer mesur, cofnodi ac adrodd ar ddata ar gyfer y dangosyddion hyn yn cael eu diffinio'n gliriach. **Mae'r cynnig hwn ar gyfer gwella yn aros yn agored.** |
| 18. Dylai canllawiau a phrotocolau ffurfiol gael eu rhoi ar waith ar gyfer gosod targedau dangosyddion perfformiad a sicrhau bod targedau cenedlaethol yn cael eu hystyried yn ystod y broses. | **Mae cynnydd araf wedi'i wneud wrth fynd i'r afael â'r cynnig hwn ar gyfer gwella.** Nid oes canllawiau a phrotocolau ffurfiol ar gyfer gosod targedau wedi'u datblygu hyd yma. **Mae'r cynnig hwn ar gyfer gwella yn aros yn agored.** |